



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Hyddgen
Machynlleth
Powys
SY20 8DR**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2017

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Hyddgen yn nhref Machynlleth ac o fewn Awdurdod Lleol Powys. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn dair oed i'r adran gynradd ac yn derbyn disgyblion o ysgolion cynradd partner eraill o'r awdurdod lleol a thu hwnt i'r adran uwchradd. Mae 488 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol, 199 ohonynt yn yr adran gynradd, a 289 yn yr adran uwchradd. Mae Ysgol Bro Hyddgen yn gyfuniad o ddwy ysgol flaenorol, Ysgol Gynradd Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi. Agorwyd ym Medi 2014.

Mae 10.9% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 20.1% ar gyfer ysgolion cynradd. Ymranna'r ganran yma i 8% yn yr adran uwchradd, a 14.5% yn yr adran iau. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod lawn o alluoedd. Mae 1.2% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Daw 62% o'r disgyblion o gartrefi lle nas defnyddir y Gymraeg. Mae 44% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol gydag un dosbarth ym mhob blwyddyn yn derbyn addysg gyfrwng Saesneg.

Mae'r tîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol. Penodwyd y pennaeth yn Chwefror 2014 ar gyfer agor yr ysgol ym mis Medi. Penodwyd y dirprwy a'r pennaeth cynorthwyol ym mis Mai 2014. Roedd pob un yn aelodau o dîm arwain Ysgol Bro Ddyfi.

Mae'r cyllid unigol ar gyfer disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen ar gyfer 2016-2017 yn £4,732.

Crynodeb

| | |
|---------------------------------------|----------------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys amrediad eang o bynciau yn gryf
- yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o gyfnodau allweddol blaenorol mewn llawer o ddangosyddion allweddol
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau
- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth wrth symud trwy'r ysgol
- mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y gwersi hyn, mae'r gwaith yn datblygu dealltwriaeth disgyblion yn gynyddol ac yn adeiladu'n rhesymegol ar eu gwybodaeth flaenorol
- mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn arbennig o dda
- mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda o'i gymharu ag ysgolion tebyg

Fodd bynnag:

- ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad o ran y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn is na'r deilliannau a fodelwyd yn y ddwy flynedd diwethaf
- nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen bob tro yn cwrdd â'r holl egwyddorion fel y cyswllt a'r byd y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r disgybl yn arwain ei ddysgu ei hun dros gyfnod o amser
- mewn ychydig o wersi, nid yw'r disgyblion yn ddigon uchel ac nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y gwersi hyn

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan yr ysgol uwch dîm arwain cymwys, sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant ar draws yr ysgol
- mae gan yr uwch arweinwyr ddarlun clir o gryfderau a meysydd i'w gwella o'r rhan fwyaf o waith yr ysgol
- mae gan arweinwyr ar bob lefel wybodaeth gadarn am safonau a darpariaeth yn eu meysydd
- mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau hunanarfarnu priodol sydd yn rhan

reolaidd o fywyd yr ysgol

- mae'r llywodraethwyr yn herio arweinwyr yn gryf ynglŷn â deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth
- mae'r ysgol yn datblygu'n effeithiol fel cymuned ddysgu lwyddiannus
- mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid strategol
- bod gan yr ysgol gynlluniau cytunedig i waredu diffyg yn y gyllideb

Fodd bynnag:

- nid yw'r prosesau hunanarfarnu wedi cael digon o effaith ar safonau ar draws yr ysgol, gan gynnwys mathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, nid yw'r prosesau wedi adnabod y meysydd i'w gwella yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen.
- mae ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn amrywio gormod

Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn arbennig yn y dangosydion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg
- A2 Sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n gadarn
- A3 Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu trwy rannu'r arfer orau a welwyd yn yr ysgol
- A4 Sicrhau bod ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu yn gyson ac yn arwain at welliant
- A5 Gwaredu'r diffyg yn y gyllideb

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae tua hanner y disgyblion yn meddu ar fedrau sy'n is na'r disgwyl am eu hoed. Mae rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn 2016, mae perfformiad o ran y deiliant disgwylidig mewn llythrennedd Cymraeg yn uwch na pherfformiad 2015 ac mae uwchlaw ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y deiliant disgwylidig ar gyfer datblygiad mathemategol wedi gostwng yn 2016 ac mae'n is nag ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf.

Mae perfformiad ar y deiliant uwch yn amrywio mewn llythrennedd Cymraeg o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol ar y deiliant hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y pynciau craidd unigol ar lefel 4 neu uwch wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefelau uwch, mae'r perfformiad cryfaf yn y Gymraeg ac mae tueddiad am ei fyny yn y Saesneg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2016, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gostwng o'i gymharu â 2015 ond mae'n parhau i fod ychydig yn uwch na'r deilliannau a fodelwyd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ym mron pob dangosydd allweddol wedi gwella yn 2016 o'i gymharu â 2015. Mae perfformiad o ran y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn is na'r deilliannau a fodelwyd am y ddwy flynedd diwethaf. Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapiu hefyd wedi cynyddu yn yr un cyfnod ac mae'n uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg eraill.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o gyfnodau allweddol blaenorol mewn llawer o ddangosyddion allweddol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Ym Mlwyddyn 13, yn 2016, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi cynyddu ac mae'n uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg eraill. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion sydd wedi ennill tair gradd A* neu A hefyd wedi cynyddu ond mae'n parhau i fod yn is nag yr hyn mewn ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn llwyddo i ennill y trothwy lefel 3. Yn 2016 mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi cynyddu i fod yn uwch na'r teulu a Chymru.

Yn gyffredinol, mae amrywiaeth ym mherfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 ond nid yw'n arwyddocaol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae bechgyn yn perfformio'n well na bechgyn mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd pynciau craidd. Mae perfformiad merched yn y dangosydd pynciau craidd yn is na merched mewn ysgolion tebyg ers 2015.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched yn y trothwy lefel 2 a sgôr pwyntiau wedi'i gapio. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn sylweddol is na'r merched o ran y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg ac yn is na bechgyn mewn ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn dwyn i gof wybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn ei gymhwyso'n effeithiol i'r gwaith. Mewn ychydig o wersi, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd arbennig sydd yn uwch na disgwyliadau. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd gan ddisgyblion mewn ychydig o wersi ble nad yw'r disgwyliadau yn ddigon uchel ac nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol.

Yn fuan ar ôl cychwyn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar yn y Gymraeg yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn glir gyda'i gilydd ac oedolion. Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn dda ac yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau gan gyfiawnhau eu hatebion yn fanwl. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn llai hyderus wrth siarad o flaen y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro ac ar ei gilydd gan ymateb yn fedrus i'r hyn y maent yn ei glywed. O ganlyniad, maent yn cynyddu eu dealltwriaeth a gwybodaeth bynciol. Maent yn gyffredinol, yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn synhwyrol gan roddi mynegiant priodol i'r testun o oedran cynnar. Maent yn defnyddio eu medrau yn llwyddiannus ar draws y pynciau a meysydd dysgu, er enghraifft, i gywain gwybodaeth o erthyglau papur newydd a thestunau ar y we. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau darllen yn effeithiol iawn i ddadansoddi testun er enghraifft, o nofelau addas i'w hoedran a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i ddarllen eu gwaith i weddill y dosbarth.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus gan dalu sylw arbennig i'r cyflwyniad yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog. Mae'u safonau sillafu yn gadarn ac maent yn ysgrifennu'n helaeth ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio termau pynciol yn briodol yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu amrediad priodol o fedrau rhif a'u defnyddio i ddatrys problemau mewn cyd-destunau newydd a chyfarwydd ar draws y cwricwlwm. Maent yn adio, tynnu, lluosu a rhannu'n effeithiol ac yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol. Pan fo'n briodol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus wrth ddysgu am ffracsiynau, onglau a fformwlâu. Yn gynyddol wrth fynd trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trin data'n llwyddiannus wrth gofnodi, dadansoddi a'i arddangos mewn graffiau a siartiau priodol.

Mae ystod medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oedran yn gadarn. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh i gyfathrebu, trin data a chywain gwybodaeth o'r we. Pan fydd cyfle, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn codio yn briodol ac yn llunio a defnyddio bas data ar gyfer ymchwil. Mae bron pob un yn ddefnyddwyr hollol hyderus ac yn defnyddio'u medrau'n effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Gymraeg, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dilyn cwrs iaith gyntaf ac mae llawer yn llwyddo i ennill TGAU gradd A*-C. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dilyn trywydd ail-iaith ac yn sefyll arholiad y cwrs llawn. Mae llawer yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg trwy'r ysgol ond mae ychydig o ddisgyblion ail iaith yn ansicr yn eu gallu i ddeall a chyfathrebu yn y Gymraeg, yn enwedig ar lafar.

Lles: Da

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth. Mae eu hymddygiad o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn arbennig o dda, sy'n cyfrannu at greu awyrgylch dysgu effeithiol.

Maent yn dangos cwrteisi a pharch tuag at gyfoedion, staff yr ysgol ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynorthwyo a chefnogi dysgu ei gilydd yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol ar dasgau'n annibynnol gan wneud dewisiadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Mae bron pob un disgybl yn dangos diddordeb yn y gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn effeithiol. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u targedau, yn arbennig yn yr uwchradd. Maent yn deall eu cryfderau a sut i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau'n llwyddiannus mewn gwahanol feysydd ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd yn datblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf o'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffitrwydd a bwyta'n iach. Mae'r cyngor lles a ffitrwydd yn weithgar ac yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r disgyblion hyn yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gyfrifol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd yr ysgol trwy gynorthwyo eraill. Mae disgyblion yr adran gynradd hefyd yn cadw'n heini trwy'r cynllun 'Trac dal i fynd' sy'n annog iddynt redeg o amgylch y cae am gyfnod pob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddel arfer dda o fwyta'n iach trwy yfed dŵr a bwyta byrbrydau iach o'r 'stondin snack' yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n werthfawr wrth wneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr ysgol. Mae cynghorau'r ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac maent wedi dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol fel penderfynu ar nod ac amcanion yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n gyson yn y gymuned ac yn codi llawer o arian yn flynyddol tuag at elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda o'i gymharu ag ysgolion tebyg eraill.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|--|-----------|

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu i'r disgyblion ar draws y cyfnodau allweddol. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn elwa ar ystod eang o lwybrau dysgu sy'n cynnwys cyrsiau galwedigaethol ac academaidd addas. Mae cydweithio llwyddiannus gyda darparwyr o sefydliadau addysgol eraill, er enghraifft, ysgolion cyfun cyfagos, yn ehangu dewisiadau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen bob tro yn cwrdd â'r holl egwyddorion fel y cyswllt a'r byd y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r disgybl yn arwain ei ddysgu ei hun dros gyfnod o amser.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o weithgareddau y tu hwnt i'r cwricwlwm sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn, gan gynnwys gweithgareddau 5x60 a gwaith elusennol. Yn ogystal, mae disgyblion yn cyfrannu i'r gymuned yn llwyddiannus drwy agweddau fel y Fagloriaeth Gymreig a chynllun tyfu llysiâu, 'Mach Maethlon'. Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer addysg yn gysylltiedig â'r byd gwaith.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol. O ganlyniad, gwelir enghreifftiau nerthol o ddisgyblion yn llwyddo i ddatblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau buddiol yn cael eu cynllunio er mwyn datblygu eu medrau, er enghraifft, y boreau llythrennedd a rhifedd a thasgau cyfoethog rhifedd. Ar gyfer disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan, mae'r ddarpariaeth a'r ymyraethau yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol er mwyn sicrhau cysondeb yn y profiadau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol yn hybu'r ymdeimlad Cymreig yn llwyddiannus, er enghraifft gweithgareddau'r Urdd, brwydr y bandiau, radio'r ysgol a phapur newydd yr ysgol, 'Ein Bro'. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg astudio pob pwnc, ar wahân i Ffrangeg, drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw pob pwnc ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth.

Mae amrediad cynhwysfawr o weithgareddau llwyddiannus yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gydag elusennau allanol fel 'cyfeillion

dementia' a gofalwyr ifanc. Mae gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cryf gyda gwledydd eraill fel Gwlad y Basg a Groeg sy'n codi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau lleiafrifol.

Addysgu: Da

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac mae ganddynt berthynas werthfawr a chynhyrchiol gyda'r disgyblion. Maent yn gosod amcanion clir ac yn hyrwyddo disgyblion i ddysgu'n annibynnol yn effeithiol. Mae bron pob athro yn modelu iaith yn dda yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio'n ofalus gan ystyried gallu a chyrhaeddiad blaenorol y disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu. Mewn llawer o wersi, ble mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae'r athrawon yn galluogi iddynt ddysgu ar gyflymder sy'n briodol i'r unigolyn. Yn y gwersi hyn, mae'r gwaith yn datblygu dealltwriaeth disgyblion yn gynyddol ac yn adeiladu'n rhesymegol ar eu gwytodaeth flaenorol. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n cadw diddordeb a sylw disgyblion. Maent yn diwallu anghenion disgyblion o bob gallu yn gynnil trwy addasu adnoddau a gweithgareddau.

Mewn ychydig o wersi mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang iawn o strategaethau i ysbrydoli'r disgyblion ac i osod lefel uchel o her a disgwyliadau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gweithio'n galed iawn ac yn gwneud cynnydd arbennig. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn creu ethos hynod o weithgar a chadarnhaol iawn gyda defnydd celfydd o hiwmor a chanmoliaeth briodol.

Mewn ychydig o wersi, ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig, nid yw disgwyliadau yr athrawon yn ddigon uchel. Yn y gwersi hyn, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol ac nid yw'r athrawon yn rhoddi cyfle digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Yn ychwanegol, mae'r athrawon yn canolbwyntio gormod ar gyflawni gweithgareddau heb roddi digon o gyfle i ddisgyblion ymestyn eu dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau yn effeithiol ac yn cynnig adborth defnyddiol ar lafar gan herio disgyblion i ymestyn eu hatebion. Maent yn rhoddi cymorth buddiol i ddisgyblion gan ddangos sut i wella eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion feddwl am eu hatebion.

Wrth farcio gwaith, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu sylwadau cadarnhaol a chefnogol i gynorthwyo disgyblion i wella eu gwaith. Mae athrawon yn cynllunio llawer o gyfleoedd gwerthfawr a phwrpasol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Gwneir hyn yn fwy effeithiol pan mae'r disgyblion yn llunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'n rhoi gwytodaeth ddefnyddiol i staff ynghylch cyflawniad gwahanol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Gwenir defnydd da o'r wybodaeth i dargedu ymyrraeth i ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau defnyddiol ar gynnydd y disgyblion i rieni a gofalwyr yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf

o'r adroddiadau llawn yn nodi'n glir yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae'r adroddiadau byr yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyrhaeddiad yn erbyn targedau ac mae cyfle priodol i rieni a gofalwyr i ymateb iddynt.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Mae ansawdd y gofal, cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau lles y disgyblion. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol trwy gydweithio ag asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu, sy'n darparu cyngor priodol ar sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngwyd. Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol iawn i ddisgyblion bregus sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i dyfu mewn hyder.

Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae llwyddiant y ddarpariaeth hon yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd o gwmpas yr ysgol. Mae'r ethos o ddisgyblion yn gofalu am ei gilydd yn nodweddiadol gref.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy gydweithrediad aelodau'r cyngor lles a ffitrwydd, mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o weithgareddau defnyddiol i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod o strategaethau pwrpasol i gynnal a gwella presenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfarwyddyd defnyddiol i ddisgyblion wrth wneud dewisiadau ar gyfer cyrsiau ôl 16 a chyfnod allweddol 4

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan ac yn sicrhau cymorth yn briodol. Mae athrawon, cynorthwyr ac arbenigwyr iechyd yn cydweithio'n effeithiol iawn i gwrdd ag anghenion disgyblion. Mae rhieni a disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr i gynlluniau addysg unigol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn mesur cynnydd. Mae'r trefniadau hyn yn arwain at ymyraethau pwrpasol er mwyn bodloni anghenion penodol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan Ysgol Bro Hyddgen ethos gofalgar, personol a chefnogol gyda chymeriad Cymreig naturiol. Mae'n gweithio'n galed tuag at 'galluogi breuddwydion' pob disgybl gan roddi cyfle cyfartal a sicrhau goddefgarwch. Mae'n hyrwyddo parch tuag at amrywiaeth yn glir ac yn llwyddo i greu ymdeimlad cryf o berthyn ymysg ei disgyblion a rhieni. Caiff pob disgybl fynediad addas i'r cwricwlwm ac i ystod eang o weithgareddau allgyrsiol diddorol, er enghraifft, timau chwaraeon, mabolgampau, côr, drama a cherddorfa.

Mae'r ddau gampws yn lan ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae'r toiledau, y cyfleusterau newid, a'r ffreutur yn addas i bwrpas. Mae'r adeiladau yn addas ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau ar gynnig. Mae digon o adnoddau technolegol ar gael sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan staff a disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ardal ddysgu allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n llawn i ennyn diddordeb disgyblion.

| | |
|--|----------------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|--|----------------|

Arweinyddiaeth: Da

Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd, bellach mae gan yr ysgol uwch dîm arwain cymwys, sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi gweithio'n bwrpasol gyda disgyblion er mwyn creu gweledigaeth glir sy'n adlewyrchu amcanion ac ethos yr ysgol. Mae'r weledigaeth wedi ei rhannu'n effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr a staff yn deall eu rolau a'r llinellau o atebolrwydd yn dda. Er gwaethaf hynny, nid yw cyfrifoldebau pob arweinydd canol yn y cynradd yn glir. Mae arweinwyr yn cwrdd gyda'i gilydd a gyda'u timau yn rheolaidd. Mae agendâu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd a chyraeddiadau disgyblion ac ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r cofnodion yn fanwl ac yn adnabod gweithredoedd ymarferol a pherthnasol. O ganlyniad, mae ansawdd y cyfathrebu rhwng timau ac adrannau'n gadarn ac yn sicrhau bod pawb yn deall y cam nesaf o ran gweithredu.

Mae arweinwyr gan amlaf yn cyfleu disgwyliadau uchel o'r staff y maent yn eu rheoli. Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau bod gan bawb dargedau heriol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion personol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol. Maent wedi derbyn hyfforddiant addas, er enghraifft, er mwyn deall data perfformiad yr ysgol. Maent hefyd yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ac athrawon i dderbyn gwybodaeth fanwl ac i wella'u dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae'r tîm ffocws yn canolbwyntio'n bwrpasol ar fonitro cynnydd tuag at flaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn herio arweinwyr yn gryf ynglŷn â deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar waith yn briodol. Er enghraifft, mae'r cydlynwyr wedi cynllunio'n drylwyr i sicrhau bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn effeithio'n gadarn ar fedrau'r disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u gwreiddio'n ddigon cryf.

Er bod systemau rheolaeth priodol yn bodoli, mae rhai yn gymharol newydd ac nid yw'n bosib i fesur eu heffaith llawn ar ddarpariaeth nac ar ddeilliannau disgyblion.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau hunanarfarnu priodol sydd yn rhan reolaidd o fywyd yr ysgol. Maent wedi amserlennu cyfres werthfawr o weithgareddau i gasglu gwybodaeth uniongyrchol ar gynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan yr uwch arweinwyr ddarlun clir o gryfderau a meysydd i'w gwella o'r rhan fwyaf o waith yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau medrau disgyblion, y trothwy lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4 a chysondeb yn ansawdd yr addysgu. Serch hynny, nid yw'r prosesau hunanarfarnu wedi cael digon o effaith ar safonau ar draws yr ysgol, gan gynnwys mewn mathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, nid yw'r prosesau wedi adnabod y meysydd i'w gwella yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion a rhieni yn rheolaidd. Mae rhieni yn cwblhau holiaduron gwerthfawr yn ystod nosweithiau rhieni. Mae disgyblion yn cwblhau holiaduron defnyddiol yn rheolaidd ar faterion cyffredinol ac ar agweddau penodol fel ansawdd unedau o waith.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adnabod y rhan fwyaf o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'n cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata ar gyfer pob cyfnod allweddol ac ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae'n arfarniad teg o berfformiad yr ysgol ac yn cymharu ei hunan ag ysgolion tebyg. Mae'r adroddiad yn cyfeirio'n briodol at safonau mewn gwersi ac ansawdd yr addysgu gan dynnu'n addas ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol ond mae'n rhy ddisgrifiadol ar adegau.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn amlinellu blaenoriaethau datblygu'n glir ac yn cynnwys camau priodol i'w diwallu. Mae cyswllt clir iawn rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a chynllun gwella'r ysgol.

Mae adroddiadau hunanarfarnu pynciol a chyfnodau allweddol yn dilyn fformat cyffredin ac yn cynnwys barnau perthnasol ar safonau, addysgu ac arweinyddiaeth. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad disgyblion ac yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn dda. Serch hynny, mae rhai barnau ar safon yr addysgu yn yr adroddiadau yn rhy hael. Er bod yr adroddiadau yn gyffredinol yn werthfawr, mae'r ansawdd yn amrywio gormod.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid strategol i ehangu'r cwricwlwm ac i hyrwyddo lles disgyblion. Mae cysylltiadau buddiol gydag ysgolion cynradd partner i helpu disgyblion i drosglwyddo i'r adran uwchradd. Mae'r partneriaethau hefyd yn hyrwyddo cydweithio agos rhwng yr ysgolion yn y clwstwr wrth gyd-safoni asesiadau athrawon yn y pynciau craidd. Mae nifer o bartneriaethau effeithiol rhwng yr ysgol a darparwyr eraill i ehangu cyfleoedd i ddisgyblion. Mae partneriaeth rhwng yr ysgol ag ysgol uwchradd arall a choleg addysg bellach yn ehangu'r arlwy o bynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhwydwaith 14-19 Gogledd Powys yn sicrhau ystod o gyrsiau galwedigaethol yng nghyfnod

allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i sicrhau ansawdd y cyrsiau a ddarperir gan y partneriaid.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgol gyfun ac ysgol gynradd o'r rhanbarth i ddatblygu prosesau hunanarfarnu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion ar y cyd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda busnesau lleol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae cyflogwyr lleol yn cefnogi gweithgareddau menter a busnes a gynhelir yn flynyddol. Maent yn cynnal ffug gyfweiliadau defnyddiol i ddisgyblion yn y chweched dosbarth cyn iddynt gynnig am swyddi neu wneud cais am le mewn prifysgol. Mae cysylltiadau buddiol rhwng yr ysgol a'r ganolfan ynni amgen lleol a'r amgueddfa celf fodern. O ganlyniad, mae disgyblion yn ehangu eu profiadau o fywyd lleol a thramor.

Mae cysylltiadau buddiol gyda mudiadau cyn oed ysgol yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn yr ysgol. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn datblygu'n briodol. Mae'r gymdeithas rhieni yn weithgar iawn, yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol a chodi arian.

Mae rheolwyr yn cyfrannu'n effeithiol i waith y 'Fforwm Ysgolion Pob Oed Cymru' gyda ffocws ar gydweithio ag ysgolion tramor o ran addysgeg a thargedu bwlio.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol allanol fel yr asiantaethau cwnsela a chymdeithasol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau a'r staff yn briodol. Defnyddir arbenigedd y staff yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r athro TGCh yn dysgu yn yr adran gynradd ac mae medrau TGCh erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi gwella'n nodedig. Mae'r staff cynorthwyol yn cefnogi disgyblion penodol yn fuddiol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio cryfderau'r athrawon cynradd yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n effeithiol fel cymuned ddysgu lwyddiannus. Mae cyfleoedd da yn bodoli i gefnogi dysgu proffesiynol staff, gan gynnwys hyfforddiant penodol sy'n canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion personol. Mae llawer o athrawon yn rhan o weithgorau defnyddiol sy'n gwneud ymchwil er mwyn datblygu agweddau penodol o waith yr ysgol, er enghraifft, gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae athrawon yn gweithio'n fwriadol mewn triawdau er mwyn rhannu arfer dda ac ehangu eu strategaethau dysgu.

